Y Comisiwn Etholiadol

Golwg gyffredinol

# Golwg gyffredinol ar ddeunydd ymgyrchu di-blaid

Mae'r ddogfen hon yn esbonio beth yw deunydd ymgyrchu a'r rheolau y bydd arnoch angen eu dilyn, efallai.

Cynnwys:


Cyflwyniad i  ddeunydd ymgyrchu

Beth yw deunydd ymgyrchu

Gweithio gyda phlaid neu ymgeisydd

## Termau ac ymadroddion a ddefnyddir gennym

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' pan fyddwn yn cyfeirio at ofyn cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylech**' ar gyfer eitemau yr ydym yn ystyried eu bod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes raid i chi ddilyn y cyfarwyddyd hwn, ond os gwnewch hynny, byddwch, fel arfer, yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hymagwedd at orfodi

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol fe allwch chi a'ch sefydliad fod yn ddarostyngedig i gosbau sifil neu droseddol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ymagwedd y Comisiwn at orfodi yn www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Golwg gyffredinol ar ddeunydd ymgyrchu di-blaid

## Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon:

Ymgyrchwyr di-blaid sydd am ddeall a ydynt yn cynhyrchu deunydd ymgyrchu a reoleiddir.

## Mae'r ddogfen yn trafod:

- Cyflwyniad i ddeunydd ymgyrchu
- Beth sy'n cyfrif fel deunydd ymgyrchu
- Gweithio gyda phlaid neu ymgeisydd

## Dogfennau cysylltiedig:

- Cyflwyniad i ymgyrchwyr di-blaid
- Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Rheoli gwariant ymgyrch ddi-blaid
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Digwyddiadau hysting

2

# Crynodeb

Dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol Etholiadau a Refferenda 2000, mae rheolau ar yr hyn y gall ymgyrchwyr di-blaid ei wario ar eu deunydd ymgyrchu yn y cyfnod cyn rhai etholiadau.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn nodi beth yr ydym yn ei olygu wrth ddweud 'deunydd ymgyrchu'.

# Cyflwyniad

Unigolion neu sefydliadau sy'n ymgyrchu mewn etholiadau yw ymgyrchwyr di-blaid, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr.

Mae rheolau ynglŷn â faint y caiff ymgyrchwyr di-blaid ei wario ar gynhyrchu a dosbarthu deunydd ymgyrchu i'r cyhoedd.

Mae dau fath o ymgyrch – 'ymgyrchoedd cyffredinol' ac 'ymgyrchoedd lleol'.

Ar gyfer ymgyrch gyffredinol, gall unrhyw un wario hyd at £10,000 yn Lloegr, neu £5,000 yn yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon ar ddeunydd ymgyrchu. Os byddwch am wario mwy na hynny, rhaid i chi gofrestru â ni yn 'drydydd parti cydnabyddedig'.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn esbonio beth yr ydym yn ei olygu wrth ddweud 'deunydd ymgyrchu'. Bydd arnoch angen deall a ydych yn cynhyrchu deunydd ymgyrchu i wybod a yw'r rheolau ar ymgyrchoedd cyffredinol yn berthnasol i chi, ac a oes arnoch angen cofrestru â ni yn 'drydydd parti cydnabyddedig'.

Mae'r rheolau ar gyfer ymgyrchoedd lleol ychydig yn wahanol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar y ddau fath o ymgyrch yn ein Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid.

Am ragor o wybodaeth gweler y ddogfen hon:

- Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid

# Pa ddeunydd sy'n cael ei gynnwys dan y rheolau?

Dulliau cyfathrebu (fel taflenni, hysbysebion a gwefannau) yw deunydd ymgyrchu y gellir ystyried yn rhesymol eu bod wedi eu bwriadu i ddylanwadu ar ddewis pobl wrth bleidleisio.

Gall eitem fod yn ddeunydd ymgyrchu hyd yn oed os byddwch wedi ei fwriadu i gyflawni rhywbeth arall, fel codi ymwybyddiaeth o fater penodol.

Bydd a yw eitem yn cyfrif fel deunydd ymgyrchu neu beidio yn dibynnu ar y ffeithiau. Er mwyn bod yn ddeunydd ymgyrchu, rhaid iddo fodloni dau brawf:

- y prawf diben **a'r**
- prawf cyhoeddusrwydd

# 4

## Y prawf diben

Bydd deunydd yn bodloni'r prawf hwn os bydd yn hyrwyddo neu'n gwrthwynebu:

- pleidiau gwleidyddol penodol
- pleidiau neu ymgeiswyr sy'n cefnogi polisïau neu faterion penodol, neu
- fathau o ymgeiswyr – er enghraifft, ymgeiswyr mewn grŵp oedran arbennig

Nid oes raid i'r deunydd enwi plaid neu ymgeisydd penodol. Er enghraifft, gall fod yn ymgyrchu dros bolisi sy'n gysylltiedig gydag un blaid neu fwy.

### Gweithredu'r prawf diben

Ym mhob achos bron, bydd eitem yn ddeunydd ymgyrchu os bydd yn:

- adnabod ymgeiswyr neu bleidiau sy'n cefnogi neu'n gwrthwynebu amcanion eich ymgyrch
- yn nodi neu'n cymharu safbwynt pleidiau penodol neu ymgeiswyr ar bolisi yr ydych chi'n ei hyrwyddo
- hyrwyddo neu'n gwrthwynebu polisïau sydd yn cael eu cysylltu mor glos a chyhoeddus â phlaid neu bleidiau fel nad yw hi'n rhesymol dadlau nad yw'r eitem yn ddeunydd ymgyrchu

Weithiau, gall plaid wleidyddol fabwysiadu polisïau yr ydych yn ymgyrchu drostynt yn barod.

Ni fydd eich deunydd yn dod yn ddeunydd ymgyrchu o ganlyniad i benderfyniad y blaid, oni bai eich bod yn:

- rhoi cyhoeddusrwydd i gefnogaeth y blaid wleidyddol yn eich ymgyrchu wedyn, neu
- newid neu yn cynyddu eich gweithgareddau ymgyrchu ar y polisi o ganlyniad i'w cefnogaeth

## Y prawf cyhoeddusrwydd

Bydd deunydd yn bodloni'r prawf hwn os bydd ar gael i'r cyhoedd.

### Deunydd y byddwch yn ei anfon at eich aelodau neu gefnogwyr ymrwymedig

Efallai y bydd gan eich sefydliad aelodau swyddogol, neu bobl sy'n cefnogi eich sefydliad yn yr un modd ag aelodau. Rydym yn galw'r bobl yma yn 'gefnogwyr ymrwymedig'.

Nid yw deunydd y byddwch yn ei anfon at aelodau neu gefnogwyr ymrwymedig yn cyfrif fel deunydd etholiad, cyn belled â'i fod yn ymdrin â materion sy'n disgyn dan nodau ac amcanion eich sefydliad.

Bydd union natur 'cefnogwr ymrwymedig' yn amrywio rhwng gwahanol sefydliadau, ond gall gynnwys:

- Rhoddwyr cyson trwy ddebyd uniongyrchol;
- Pobl gyda thanysgrifiad blynyddol; neu
- Bobl sy'n weithredol yn eich sefydliad.

Nid ydym yn ystyried bod pobl yn gefnogwyr ymrwymedig os byddant wedi:

- Ymuno â safleoedd neu offer rhwydweithio cymdeithasol. Er enghraifft, grwpiau Facebook neu borthiannau Twitter.
- Ymddangos ar restrau postio sydd wedi eu llunio ar gyfer dibenion masnachol cyffredinol. Er enghraifft, cofnodion cwsmer busnes

## Penderfynu beth sy'n cyfrif fel deunydd ymgyrchu

Os nad ydych yn siŵr a fydd deunydd yr ydych yn ei gynhyrchu yn cyfrif fel deunydd ymgyrchu dylech ofyn i'ch hunan pam eich bod yn ei gynhyrchu a sut y gall ymddangos i eraill. Dylech gadw'r 'prawf diben' a'r 'prawf cyhoeddusrwydd' mewn cof, a rhoi eich barn yn ddidwyll.

Os bydd yn ymddangos i bobl ei fod wedi ei fwriadu, yn rhannol o leiaf, i ddylanwadu ar ddewis pobl wrth bleidleisio, neu ei fod

Os nad ydych yn siŵr, ffoniwch ni i gael cyngor.
Rydym yma i'ch helpu.

yn rhoi gwybodaeth am bleidiau, polisïau neu ymgeiswyr penodol, mae'n debygol o gyfrif fel deunydd ymgyrchu.

### Gwefannau fel deunydd ymgyrchu

Dim ond os bydd yn cael ei hysbysebu (neu ei hyrwyddo mewn modd arall) i'r cyhoedd yng nghyswllt eich ymgyrch y mae cynnwys gwefan yn cyfrif fel deunydd ymgyrchu.

Gall hysbysebu neu hyrwyddo gynnwys:

- rhoi cyfeiriad y wefan fel ffynhonnell ar gyfer rhagor o wybodaeth ar ddeunydd etholiad arall
- cryfhau safle'r wefan yn rhestrau canlyniadau chwilotwyr
- gosod dolenni ar wefannau eraill
- marchnata firaol neu weithgareddau o'r fath

# Gweithio gyda phlaid neu ymgeisydd

Os byddwch yn gweithio gyda phlaid neu ymgeisydd gall hyn gael effaith wrth bennu a fydd gwariant ymgyrch yn cyfrif tuag at eich gwariant ymgyrch chi, neu wariant y blaid neu'r ymgeisydd.

Bydd raid i chi ystyried pwy sy'n caniatáu'r gwariant ar yr ymgyrch.

Os bydd y gwariant yn cael ei ganiatáu gan y blaid neu'r ymgeisydd, mae'n cyfrif tuag at eu gwariant **nhw**.

Os nad yw'r gwariant yn cael ei ganiatáu gan y blaid neu'r ymgeisydd, mae'n cyfrif tuag at eich gwariant **chi**.

Am ragor o wybodaeth ar ganiatáu gwariant, gweler y ddogfen hon:

- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Rheoli gwariant ymgyrch ddi-blaid

## Sut allwch chi benderfynu pwy wnaeth roi caniatâd i'r gwariant ar ymgyrch?

### Gwariant sy'n cael ei ganiatáu gan y blaid neu'r ymgeisydd

Bydd eich gwariant ar ymgyrchu yn debygol iawn o gael ei weld fel gwariant a ganiatawyd gan y blaid neu ymgeisydd os:

- Byddwch yn cydlynu eich ymgyrch gyda'r blaid neu ymgeisydd. Er enghraifft, os byddwch yn cytuno y dylech fod

yn gyfrifol am ardaloedd, materion, neu bleidleiswyr penodol.

- Bod gan y blaid neu ymgeisydd hawl i gymeradwyo eich taflenni, gwefannau neu ddeunydd ymgyrchu arall.

### Gwariant sy'n cael ei ganiatáu gennych chi fel ymgyrchydd di-blaid

Mae'n debygol y bydd gwariant ymgyrch yn cael ei weld fel gwariant a ganiatawyd gennych chi, fel ymgyrchydd di-blaid, os:

- Byddwch yn gadael i'r blaid neu'r ymgeisydd wybod eich bod yn mynd i ymgyrchu drostynt, ond nad ydych yn trafod eich cynlluniau â nhw yn fanwl o gwbl.
- Nad ydych yn ymgynghori â'r blaid na'r ymgeisydd am yr hyn yr ydych yn ei ddweud yn eich ymgyrch, na sut yr ydych yn trefnu eich ymgyrch.

Os nad ydych yn siŵr pwy sydd wedi caniatáu'r gwariant, ffoniwch ni i gael cyngor.

# 8

## Sut gallwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfennau cyfarwyddyd yr ydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein dewis llawn o gyfarwyddyd ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw hynny'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 029 2034 6800
  infowales@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 028 9089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i'n gwefan yn www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein cyfarwyddyd – anfonwch e-bost atom yn: pef@electoralcommission.org.uk

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk